

**Diwydiant Cymru**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Gwybodaeth i Ymgewsiwyr**

**Sector Development Wales  
Partnership (yn masnachu o dan yr  
enw Diwydiant Cymru)**

**Penodi Cadeirydd**

**Dyddiad cau: 21 Chwefror 2022  
am 16:00**



**The Commissioner for  
Public Appointments**

## Diwydiant Cymru

Cynnwys:

Tudalennau

Gwneud Cais

1–2

Atodiad A: Rôl y Cadeirydd

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Diwydiant Cymru

4

Atodiad C: Y broses ddethol

8

## Diwydiant Cymru

### Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb mewn penodi Cadeirydd i'r Sector Development Wales Partnership (yn masnachu o dan yr enw Diwydiant Cymru).

Mae Bwrdd Diwydiant Cymru yn rhoi cyfeiriad strategol a chynghor arwyddocaol i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill ar faterion ym meysydd Peirianeg, Technoleg a Gweithgynhyrchu o ran llwyddiant a chynaliadwyedd yr Economi yng Nghymru.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: [Penodiadau Cyhoeddus](#)

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag y penodiad a chliciwch ar 'Gwneud cais' ar gornel chwith isaf [Canolfan Ymgeisio Llywodraeth Cymru](#). Y tro gyntaf y byddwch yn gwneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru, a thrwy wneud byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy'ch cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd y ffurflen gais ar gael ichi ei gweld. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros wneud cais' y ffurflen gais ar-lein.

### Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio beth oedd eich rôl chi wrth ichi gyflawni amcan penodol. Byddech yn helpu'r panel dethol hefyd pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

### CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

**Cyfyngwch eich datganiad personol a'ch CV i ddwy dudalen yr un. Gallai'ch cais gael ei wrthod am fynd dros y terfyn hwn.**

### Amserlen Fras

Dyddiad cau: 21 Chwefror 2022 am 16:00  
Llunio'r rhestr fer: w/c 7 Mawrth 2022  
Cyfweliadau: w/c 4 Ebrill 2022

## Diwydiant Cymru

### Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu cymdeithas Cymru – gyda phobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrrff cyhoeddus.

Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

### Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwmo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ('nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hir dymor ar allu rhywun i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwmo i gyflogi a datblygu gyrfa pobl anabl. Os hoffech gyfweliad gwarantedig, cysylltwch â [publicappointments@gov.cymru](mailto:publicappointments@gov.cymru) i roi gwybod iddynt.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio laith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru) gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

### Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Penodiadau Cyhoeddus  
Yr Uned Penodiadau Cyhoeddus  
E-bost: [publicappointments@gov.wales](mailto:publicappointments@gov.wales)

## Diwydiant Cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Diwydiant Cymru a rôl y Bwrdd, cysylltwch â Leighton James yn nhîm noddi Llywodraeth Cymru:

Ffôn: 03000 616100

E-bost: [leighton.james@gov.wales](mailto:leighton.james@gov.wales)

neu James Davies, Prif Swyddog Gweithredol – Diwydiant Cymru:

Ffôn: 07785 973780

E-bost: [jdavies@industrywales.com](mailto:jdavies@industrywales.com)

Os oes angen mwy o gymorth arnoch i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â [publicappointments@gov.wales](mailto:publicappointments@gov.wales).

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i [Penodiadau cyhoeddus | LLYW.CYMRU](#).

### Penodi Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Cymru

#### Cefndir

Sefydlwyd Sector Development Wales Partnership (SDWP) o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ym mis Ebrill 2013. Mae SDWP (sydd bellach yn masnachu o dan yr enw Diwydiant Cymru) yn gwbl atebol i Weinidogion Cymru, fel is-gwmni cyfyngedig drwy warant o dan berchenogaeth lwyr.

Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod prosesau a rheolaeth lywodraethu Diwydiant Cymru yn cael eu gweithredu'n briodol ac am gymeradwyo ei gyfeiriad strategol wrth gyflawni ei brif rôl o gefnogi busnesau Peirianyddol, Technoleg a Gweithgynhyrchu yng Nghymru, hynny yng nghyd-destun amcanion strategol Llywodraeth Cymru, cynllun gweithredu'r fframwaith gweithgynhyrchu a'r cynlluniau adfer ar ôl Covid.

#### Rôl y Bwrdd

- Cefnogi a gwella'r berthynas waith rhwng y sector preifat a Llywodraeth Cymru;
- Datblygu dulliau newydd o gefnogi'r sector preifat i wella ffyniant economaidd Cymru;
- Annog dulliau cydweithredol o ymdrin ag atebion cynaliadwy ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus; a
- Helpu i gryfhau GVA buddiannau masnachol Cymru yn genedlaethol ac yn fyd-eang gan ehangu'r hyn a olygir wrth Werth Ychwanegol o ran gwelliannau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

#### Aelodaeth y Bwrdd

Mae gan y Bwrdd 7 aelod gan gynnwys y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cadeirydd.

#### Y Cyngor Cyngori Strategol (SAC)

Fel grŵp annibynnol, caiff yr SAC ei sefydlu fel corff annibynnol i ymdrin ag amrywiaeth o weithgareddau, sectorau ac ystyriaethau eraill. Bydd gan y SAC hyd at 25 o aelodau fel y prif gorff adolygu, cynghori a chwmsela. Disgwylir iddo gael ei gadeirio naill ai gan Gadeirydd Bwrdd neu Brif Swyddog Gweithredol Diwydiant Cymru.

### Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Cewch eich penodi gan Weinidogion Cymru yn Gyfarwyddwr ar Ddiwydiant Cymru ac yn Aelod o'i Fwrdd. Yn unol â hynny, ni ddylai unrhyw beth yn y ddogfen hon gael ei ddadansoddi fel contract cyflogaeth rhyngoch chi a Llywodraeth Cymru, na chael ei hystyried i greu contract o'r fath.

### Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Bydd y rôl yn cynnwys:

- Rhoi arweiniad effeithiol, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion sy'n cynnig her;
- Hyrwyddo'r safonau uchaf o ran cyllid cyhoeddus a chynnal egwyddorion rheoleidd-dra, uniondeb a gwerth am arian;
- Disgwylir rôl ehangach o eirioli ar ran y diwydiant yng Nghymru;
- Sicrhau bod gweithgareddau Diwydiant Cymru yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol; a
- Monitro perfformiad i sicrhau bod Diwydiant Cymru yn cyflawni'i amcanion, ei nodau a'i dargedau perfformiad.

### Manyleb y Person

Meini Prawf Hanfodol:

- Y gallu i arwain Byrddau a sefydliadau yn effeithiol, a phrawf o hynny.
- Sgiliau cyfathrebu a dylanwadu rhagorol, a phrofiad o ddelio â'r cyfryngau'n effeithiol.
- Y gallu i rwydweithio a datblygu perthnasoedd
- Dealltwriaeth o bolisiâu Llywodraeth Cymru ac yn arbennig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Cynllun Gweithredu Economaidd a'i 5 Galwad i Weithredu a'r Strategaeth Ryngwladol.
- Dealltwriaeth glir o'r diwydiannau Peirianeg, Technoleg a Gweithgynhyrchu yng Nghymru, y DU ac yn Rhyngwladol a'r bygythiadau a'r cyfleoedd y maent yn eu hwynebu, gan gyfeirio'n benodol at:
  - a. Dechnolegau, cynhyrchion a marchnadoedd all aflonyddu arnynt
  - b. Awtomeiddio, Deallusrwydd Artiffisial a Diwydiant 4.0
  - c. Angori cadwyni cyflenwi o fewn economi carbon isel
- Dealltwriaeth o waith Gweinyddiaeth Ddatganoledig Cymru ynghyd ag ymwybyddiaeth wleidyddol a'r gallu i ddatblygu rhwydweithiau gwleidyddol.
- Dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac ymrwymiad iddynt a'r parodrwydd i herio arferion gwahaniaethol pan fo hynny'n briodol.
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd cynnal safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus ac ymwybyddiaeth o'r agenda amrywiaeth yng Nghymru.

## Diwydiant Cymru

### Sgiliau Dymunol:

Byddai'r Bwrdd yn elwa ar Aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad yn y meysydd canlynol:

- Busnes, peirianeg, technolegau ac Economeg.
- Arloesedd a Yrrir gan Ddata, FinTech, Seiberddiogelwch a Gwasanaethau Digidol.
- Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel, Deunyddiau Uwch ac adeiladu modern.
- Ynni, yr Amgylchedd a'r economi carbon isel.

### Y Gymraeg

Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol. Mae lefelau sgiliau dymunol fel a ganlyn:

- Yn gallu deall rhannau o sgwrs elfennol
- Yn gallu darllen a deall rhai geiriau ac ymadroddion elfennol
- Yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn y Gymraeg.
- Yn gallu ysgrifennu negeseuon elfennol ar bynciau bob dydd

Bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos empathi tuag at yr iaith a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau i gryfhau'r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir.

### Ffeithiau allweddol am y swydd

#### Lleoliad

Lleolir y swydd yng Nghanolfan Waterton, Pen-y-bont ar Ogwr. Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd fel arfer yn y Ganolfan ond gellid cynnal cyfarfodydd hefyd mewn lleoliadau eraill ledled Cymru. Yn ystod y pandemig presennol, cynhelir rhith-gyfarfodydd.

#### Telerau Penodi

Bydd Penodiad yn cael ei wneud gan Weinidog yr Economi am gyfnod o 3 blynedd.

#### Ymrwymiad Amser:

O leiaf 24 diwrnod y flwyddyn. Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter, ond bydd disgwyl i'r Cadeirydd gyfathrebu'n agos â'r Prif Swyddog Gweithredol drwy gydol y flwyddyn a mynd i ddigwyddiadau Gweinidogol a sectoraidd cysylltiedig yn ôl yr angen.

#### Cydnabyddiaeth ariannol

Mae'r sawl a benodir yn gymwys i hawlio tâl o £337 y cyfarfod, yn ogystal â threuliau. Ystyrir bod aelodau'r Bwrdd (gan gynnwys y Cadeirydd) yn ddeiliaid swydd at ddibenion treth ac Yswiriant Gwladol. O ganlyniad, bydd rhaid talu treth ar y taliadau o dan Adran 62 o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 a bydd yn rhaid talu cyfraniadau Dosbarth 1 Yswiriant Gwladol. Tynnir y symiau hyn drwy system gyflogres Llywodraeth Cymru a thelir y ffi net i ddeiliad y swydd.



## Diwydiant Cymru

### Pwy sy'n gymwys

Os caiff Bwrdd Diwydiant Cymru ei ddiddymu, ei ailstrwythuro neu ei ddirwyn i ben cyn diwedd cyfnod arferol eich penodiad, daw'ch penodiad i ben pan gaiff ei ddiddymu neu ar ddyddiad arall a bennir mewn unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

Daw'r penodiad i ben ar unwaith os cewch eich collfarnu o drosedd, a/neu pan fydd Gweinidogion Cymru yn credu bod eich ymddygiad yn golygu nad ydych bellach yn berson addas ar gyfer swydd aelod o Fwrdd Diwydiant Cymru.

Efallai y cewch eich symud o'ch swydd fel aelod o'r Bwrdd cyn diwedd cyfnod eich penodiad os byddwch wedi cael gorchymyn methdaliad.

### Diwydrwydd Dyladwy

Bydd yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddewis ar gyfer cyfweiliad. Bydd hynny'n cynnwys ymhlith pethau eraill, chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweiliad am ffrwyth yr archwiliadau diwydrwydd dyladwy hyn.

### Gwrthdaro buddiannau

Gofynnir i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai, neu a allai gael eu gweld yn gwrthdaro â'r rôl, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi awdurdod.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

### Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Rhaid i Aelodau gadw at y safonau uchaf o ran uniondeb a gwrthrychedd a bod yn ddiduedd wrth ofalu am arian cyhoeddus a llywodraethu Diwydiant Cymru. Gall unrhyw benodiad gael ei derfynu'n gynnar a heb rybudd gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru os na fydd y sawl a benodir yn gwneud ei ddyletswyddau at safon foddhaol.

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus hefyd gynnal a chael ei weld yn cynnal 7 egwyddor bywyd cyhoeddus:

<https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life/the-7-principles-of-public-life--2>

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus:

<https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members>

## **Y broses ddethol**

Bydd y panel asesu'n asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael ei wahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn rhoi tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Sioned Evans, Cyfarwyddwr, Busnes a Rhanbarthau, Llywodraeth Cymru, James Davies, Prif Swyddog Gweithredol Diwydiant Cymru ac Aelod Annibynnol o'r Panel sydd i'w gadarnhau.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu ym mis Ionawr pwy fydd yn cael ei wahodd i'r cyfweiliad ym mis Chwefror.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni meini prawf hanfodol y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan y Ganolfan Ymgeisio i roi gwybod ichi a ydych wedi'ch gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal y cyfweiliadau yng Nghaerdydd.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni gofynion y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n 'addas i'w penodi' yn cael eu hargymell i Weinidog yr Economi, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ac ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn eich cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod ymgeisio am rolau'n gofyn am lawer o amser ac ymdrech, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion pwy y dylech gysylltu â nhw i gael adborth am eich cyfweiliad a'ch cais.

## Diwydiant Cymru

### Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'ch cais, cysylltwch â [PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru](mailto:PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru).

### Os nad ydych yn hollol fodlon

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â [PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru](mailto:PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru).